

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CORFF LLYWODRAETHU GOVERNING BODY ANNUAL REPORT



2021-2022





ROBERT EVANS, QPM

CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHU

CHAIR OF THE GOVERNING BODY

Mae'n wir bleser gen i gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar ran y corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, a hynny yn ein hail flwyddyn ar hugain.

I raddau helaeth iawn, roedd 2021/22 yn flwyddyn o adferiad. Cymerwyd camau sylweddol tuag at 'ddychwelyd i normal', er gyda ffocws ôl-bandemig parhau ar les a llesiant disgyblion. Unwaith eto mae ein disgyblion, rhieni a staff i gyd wedi ymdopi â'r heriau hynny. Braf oedd gweld timau chwaraeon, cerddorion, beirdd, actorion a llawer o rai eraill, yn ail-afael mewn cystadlaethau a gweithgareddau allgyrsiol. Cefais yr anrhydedd, ar ran y llywodraethwyr, o longyfarch llawer o'n henillwyr mewn Eisteddfodau a hefyd ein tim rygbi Blwyddyn 8 enillodd bencampwriaeth cenedlaethol Cymru yn eu grŵp oedran yn Stadiwm Principality. Bydd yr atgofion am achlysuron a buddugoliaethau o'r fath yn aros gyda'n disgyblion am eu oes; rydyn ni'n falch o bob un ohonyn nhw ac yn parhau i ryfeddu at eu llwyddiannau.

Yn strategol, mae'r ysgol yn parhau i groesawu'r dasg o bontio i gofleidio'r diweddariadau digidol. Gwnaed ymdrech sylweddol i wella'r seilwaith a'r gefnogaeth TG. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethon ni newid ein darparwyr TG ar ôl perthynas hirdymor oedd yn mynd yn ôl sawl blwyddyn; rydyn ni wedi bod yn ddiolchgar am eu cefnogaeth dros y cyfnod. Yn yr un modd, rydyn ni bellach yn croesawu arferion cyffrous ac arloesol gyda darparwr newydd. Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae mwy o ddisgyblion a staff yn derbyn dyfeisiau lle mae'r datblygiadau ddigidol

It is with great pleasure that I present my Annual Report on behalf of the Governing Body at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, in this our 22nd year.

2021/22 was very a much a year of recovery. Significant steps were taken towards a 'return to normal', albeit with a continued post-pandemic focus on pupil welfare and wellbeing. Once again our pupils, parents and staff alike have stepped up to those challenges. What a pleasure it was to see sports teams, musicians, poets, actors and many others returning to competitions and extra curriculum activities alike. I had the honour, on behalf of governors, of congratulating many of our winners at Eisteddfodau and also our Year 8 rugby team who won the Wales national age group championship at the Principality Stadium. Memories from such occasions and victories will re-main with our pupils for life; we are proud of each and everyone of them and continue to be amazed at their successes.

Strategically, the school continues to embrace its transition to digitalisation. Significant effort has been put in to improving the IT infrastructure and support. During the year we changed our IT providers after a long term relationship stretching back many years; we are grateful for their support over that time. Equally, we are now embracing exciting and innovative practices with a new provider. Year on year more pupils and staff are receiving devices on which the digital agenda is being advanced. In a similar vein, efforts to ensure best value across services has seen the Head and Governors review a number of procurement areas including cleaning,

wedi camu ymlaen. Yr un pryd, gwnaed ymdrechion i sicrhau gwerth gorau ar draws y gwasanaethau drwy i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr adolygu nifer o feysydd caffael gan gynnwys glanhau, llungopio a chynnal a chadw tiroedd, i enwi dim ond rhai. O flwyddyn i flwyddyn, dynodir arbedion effeithlonrwydd newydd gan ryddhau arian yn ôl i ddarpariaeth rheng flaen y staff addysgu a chymorth. Ar ôl gweld cwblhau cryn waith, mae gennym bellach ystâd y gallwn ymfalchio ynddi; ein her fydd manteisio eto fyth ar yr arbedion effeithlonrwydd hynny yn y blynyddoedd i ddod.

Mae ein rôl yn y gymuned yn bwysig i ni, boed yn lleol yn Y Barri neu ar draws y gymuned Gymraeg ehangach sydd yn Y Fro. Mae'n bleser gennym gynnig ein cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol i amrywiaeth o grwpiau cymunedol a thimau chwaraeon. Wrth i ni barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau o'r fath byddwn yn parhau â'r cynnig hwn o ddarparu cefnogaeth i'r timau a'r grwpiau hynny. Mae'r incwm a gynhyrchir o ganlyniad i hyn yn cael ei ail-fuddsoddi i wella rhagor ar ein cefnogaeth i ddisgyblion ynghyd â darparu'r cyfleusterau o'r radd flaenaf yr ydyn ni'n anelu i'w cael.

Yn academaidd, parhaodd ein disgyblion i geisio am ragoriaeth yn eu harholiadau cenedlaethol, gan fod cystal neu well na chanlyniadau TGAU a Safon Uwch y blynyddoedd blaenorol mewn llawer o bynciau. Llongyfarchiadau mawr i bawb, a hystudiaidau gorau iddyn nhw yn eu hastudiaethau yn y dyfodol neu eu dewis lwybrau.

Unwaith eto, mae'r arweinyddiaeth a ddangoswyd gan y pennaeth, yr uwch dim arweiniol a'r staff wedi bod yn allweddol i gyflawni llwyddiant o'r fath. Manteisiwyd ar gyfleoedd i ail-lunio strwythur yr UDA, i adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar les a llesiant. Penodwyd sawl pennaeth blwyddyn o'r newydd ac rydyn ni'n gweld canlyniadau cadarnhaol mewn maes sydd mor allweddol.

Bob blwyddyn rydyn ni'n ffarfelio ac yn dymuno'r gorau i aelodau allweddol o staff, sydd naill ai'n symud i heriau newydd neu'n ymddeol ar ôl oes o waith caled. Eleni ffarfeliwyd â Mr Steffan James, Mr Adrian

photocopying and grounds maintenance to name but a few. Year on year new efficiencies are identified and money released back into the front line provision of teaching and support staff. Following the completion of works, we now have an estate that we can be proud of; our challenge is to optimise those efficiencies yet further in the years to come.

Our role in the community is important to us, be it locally in Barry or across the welsh speaking community in the wider Vale. We are delighted to offer our facilities out of school hours to a range of community groups and sporting teams. As we continue to invest in such facilities we will continue to offer up to and support those teams and groups. Income generated as a result is reinvested in to further improving our support to pupils and providing the first class facilities we strive for.

Academically, our pupils continued to strive for excellence in their national examinations, matching or beating previous years GCSE and A level outcomes in many subjects. Huge congratulations go to all, and best wishes in their future studies or chosen pathways.

Once again, key to delivering such success has been the leadership shown by the headteacher, senior leadership team and staff. Opportunities have been taken to re-shape the structure of the SLT, to reflect the importance being placed on welfare and wellbeing. Several new heads of year were appointed and we are seeing positive results in such a crucial area.

Each year we say goodbye and best wishes to key members of staff, moving to new challenges or retiring after a lifetime of hard work. This year we said a fond farewell to Mr Steffan James, Mr Adrian Jones, Mr Gwenallt Jones, Mr Steffan Jones, Miss Ffion Margetson, Miss Cadi Haf Rhys-Binney, Miss Laura Richards, Miss Glesni Sion, Miss Olivia Townsend and Miss Sara Williams. We wish them well on their future chosen paths. Several new staff have joined us and we welcome them warmly to our community. Of particular note is the return of former pupils as staff members; year on year we seem to increase the flow of both teaching and support staff who have chosen to return to 'their school'

Jones, Mr Gwenallt Jones, Mr Steffan Jones, Miss Ffion Margetson, Miss Cadi Haf Rhys-Binney, Miss Laura Richards, Miss Glesni Sion, Miss Olivia Townsend a Miss Sara Williams. Rydyn ni'n dymuno'n dda iddyn nhw ar eu dewis lwybrau yn y dyfodol. Mae nifer o staff newydd wedi ymuno â ni ac rydyn ni'n eu croesawu'n gynnes i'n cymuned. Mae'n werth cyfeirio at ddychweliad cyn-ddisgyblion fel aelodau o'r staff; flwyddyn ar ôl blwyddyn mae'n ymddangos ein bod yn cynyddu niferoedd y staff addysgu a'r staff cymorth sydd wedi dewis dychwelyd i'w 'hen hysgol' i gychwyn ar gyfer eu gyrfa. Mae staff o'r fath yn cyrraedd gydag ymdeimlad clir o'n diwylliant a'n dyheadau ac yn ychwanegu gwerth aruthrol fel cyn-ddisgyblion. Hir y parhaed yr olwyn hon i droi!

Unwaith eto eleni, rydyn ni'n gwerthfawrogi'n ddirfawr y gefnogaeth a'r gwaith caled wnaed gan fy nghyd lywodraethwyr. Mae'r corff llywodraethu yn cynnwys amrediad o is-bwyllgorau a dylid diolch yn arbennig i'r Cadeiryddion sy'n ymgymryd ag ymrwymadau ychwanegol sylweddol.

Rwy'n hynod ddiolchgar i Anne-Louise Llewellyn-Morgan, Sally-Ann Efstathiou, Cathy Williams a Huw Llewellyn-Morgan. Gadawodd Becca Pugh a Huw Davies y corff llywodraethol wrth i'w cyfnod hwy ddod i ben; rydyn ni'n diolch yn gynnes iawn iddyn nhw ill dau am eu cyfraniadau. Hefyd, rydyn ni'n estyn croeso cynnes i Lauren Tabernacl fel cynrychiolydd y staff cymorth.

Yn olaf, mae fy niolch diffuant i Glerc y Llywodraethwyr, Miss Charlotte Déchamps am ei gwaith gwych yn sicrhau fy mod i a'm cyd-lywodraethwyr wedi'u briffio a'u trefnu'n dda; rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddi.

as the springboard for their career. Such staff arrive with a clear sense of our culture and aspirations and add huge value as former pupils. Long may that conveyor belt continue!

The support and hard work of my fellow governors throughout the year has again been greatly appreciated. The governing body consists of a range of sub-committees and special thanks go to Chairs who take on significant extra commitments.

I am extremely grateful to Anne-Louise Llewellyn-Morgan, Sally-Ann Efstathiou, Cathy Williams and Huw Llewellyn-Morgan. Becca Pugh and Huw Davies left the governing body as their tenure ended; we thank them both warmly for their contributions. Equally, we extend a warm welcome to Lauren Tabernacl as the support staff representative.

Finally, my sincere thanks go to the Clerk to the Governors, Miss Charlotte Déchamps for her fantastic work in keeping myself and fellow governors well briefed and organised; we are extremely grateful to her.



RHYS ANGELL JONES

Y PENNAETH
HEAD TEACHER

Mae'n bleser gennyf gyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â datblygiadau a llwyddiannau'r ysgol yn ystod 2021-22 wrth i ni gamu allan o gyfnod heriol yn ein hanes a mewn i flwyddyn llawn gobaith a bwrllwm.

Hawdd byddai anghofio fod 2021-22 wedi bod yn flwyddyn academaidd heriol iawn i bawb oherwydd yr effaith sylweddol COVID-19 ar ein bywydau, er ein bod wedi gobeithio fod y pandemig wedi diflannu. Er gwaethaf hyn, roedd yr holl staff yn hollol bederfynol mai blwyddyn lwyddiannus fyddai hon ar gyfer disgyblion yr ysgol. Maent yn haeddu clod mawr am eu hagwedd a'u dygnwch wrth inni fwrw ymlaen i wireddu ein Cynllun Gwella Ysgol ac i sicrhau fod y disgyblion yn derbyn yr addysg a'r cyfleoedd gorau posib.

Mae'r staff yn haeddu canmoliaeth enfawr am ddechrau trefnu gweithgareddau allgyrsiol cyn gynted ag yr oedd hawl iddynt wenud a chyn i nifer o ysgolion ystyried ail-gychwyn. Y canlyniad oedd llwyddiant enfawr yn Eisteddfod yr Urdd Dinbych a buddigoliaethau ar y meysydd chwaraeon gan gynnwys cyrraedd rowndiau terfynol hoci bechgyn a merched ac enill cwpan rygbi Cymru dan 13. Yn ogystal llwyfanwyd sioeau cerdd cynradd (Dyn y Sioe) ac uwchradd (Miss Saigon) safonol iawn ac fe groesawom dros 1,000 o rieni a theuluoedd yn ôl i neuadd yr ysgol er mwyn eu gwyllo. Pleser hefyd oedd gallu ail-gydio mewn gweithgareddau cymunedol pwysig megis nosweithiau rhieni a nosweithiau pontio wyneb yn wyneb tra roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i weithio'n rhithiol.

I am pleased to present information regarding the school's development and successes during 2021-22 as we step out of a challenging period in our history and into a year full of hope and vitality.

It would be easy to forget that 2021-22 has been a very challenging academic year for all because of the significant effect of COVID-19 on our lives, although we had hoped that the pandemic had disappeared. In spite of this, all members of staff were adamant that this would be a successful year for the school's pupils. They deserve great praise for their attitude and perseverance and tenacity as we seek to realise our School Improvement Plan and to ensure that pupils receive the best possible education and opportunities.

Staff deserve the highest praise for initiating extra curricular courses as soon as they were able to do so and before many schools considered restarting. This resulted in great success at the Urdd Eisteddfod in Denbigh and great success on the sports fields, including reaching the final rounds in boys' and girls' hockey competitions and winning the Welsh Under 13 rugby cup. Also, two very high standard musical shows were performed (Dyn y Sioe) in the primary and Miss Saigon in the secondary and we welcomed over 1,000 parents and families to the shows. It was also a pleasure to begin holding important community activities face to face again, such as parents' evening and bridging evenings while most other schools were continuing to work virtually. A controversial decision at the time but a correct one given that a very high percentage of parents attended every occasion. Further evidence of the excellent collaboration between school and home

Penderfyniad dadleuol ar y pryd ond yn benderfyniad cywir o ystyried fod canran uchel iawn o'n rhieni wedi mynychu pob digwyddiad. Tystiolaeth bellach o'r cydweithio gwych rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n elfen gref o lwyddiant Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Parhaodd y gwaith i ddatblygu ein Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth newydd yn barod ac yn rhagorol ar gyfer ein disgyblion cynradd erbyn Medi 2022. Bydd y gwaith hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf wrth inni baratoi darpariaeth newydd ar gyfer y disgyblion ym mlynnyddoed 7-9 o fis Medi 2023. Rydym yn hyderus bod Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a'i chlwtwr ar flaen y gad gyda'r gwaith yma ac mae'n bwysig nodi mai y bartneriaeth gref sy'n bodoli rhwng ysgolion Cymraeg y Fro sy'n gyfrifol am y llwyddiant.

Fel y gwelwch, mae sawl agwedd o fywyd yr ysgol sy'n gwneud Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn le arbennig iawn i ddysgu a gweithio ynddi ond, wrth gwrs, mae bob tro lle i wella a datblygu ymhellach. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar ein taith a gwrieddu'r weledigaeth mai hon yw yr ysgol orau yng Nghymru, penderfynwyd bod angen cytuno ar gyfres o werthoedd sy'n crisialu ein prwpas ac yn diffinio ysgol rhagorol. Wedi ymgynghoriad cynhwysfawr gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol, cytunwyd mai y canlynol fyddai ein gwerthoedd:

- Parch
- Cymreictod
- Dyfalbarhad

Credwn fod yr holl waith da sydd wedi bodoli yn yr ysgol yn ystod dau ddegawd bellach yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn, a'r bwriad fydd i fyw a bod y gwerthoedd ym mhob agwedd o'n gwaith yn y dyfodol.

Datblygiad sylweddol arall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd ein strategaeth i gryfhau yr ethos wych sy'n seiliedig ar gydweithio trwy ddatblygu diwylliant o gymell yn yr ysgol. Er mwyn cyflawni hyn, cafodd sawl aelod o'r UDA eu hyfforddi i

which is a robust element of the success at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

The work of developing our Curriculum for Wales in order ensure that the new provision is ready and excellent for our pupils in the primary sector by September 2022 continues. This work will be developed during next year as we prepare the new provision for year 7-9 pupils from September 2023. We are confident that Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg and its cluster schools are at the forefront of this work and it is important to note that the success is due to the strong partnership which exists between the Vale's Welsh Schools.

As you can see, many aspects of school life make Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a special place to learn and work, but of course there is always room for improvement and for further development. In order to ensure that we continue on our journey and realise the vision to make our school the best school in Wales, it was decided that we should agree on a series of values that capture the essence of our purpose and which define an excellent school. After a comprehensive consultation with all the school's stakeholders, it was decided that the following would be our values:

- Respect
- Welshness
- Perseverance

We believe that all the good work achieved in the school during two decades reflects these values and the aim will be to follow these values in our life and work in the future.

Another substantial development during the last year was our strategy to strengthen the excellent ethos which is based on collaboration through developing a culture of encouragement within the school. In order to achieve this, many members of the SLT were trained to encourage others. Also, over a quarter of staff volunteered to undertake a professional development programme during the current academic year in order to contribute to realising this strategy.

gymell eraill. Hefyd gwirfoddolodd dros chwarter ein staff i ymgymryd â rhaglen o ddatblygiad broffesiynol yn ystod y flwyddyn academaidd hon er mwyn gallu cyfrannu at wireddu'r strategaeth. Mae hyn yn arwydd glir o agwedd arloesol y staff a'u hymrwymiad at wella'r ysgol ar gyfer ein disgyblion.

Gobeithio fod pawb yn ymwybodol erbyn hyn ein bod yn rhoi yr un blaeriaeth i gynnydd academaidd, iechyd, lles a diogelwch ein holl rhanddeiliaid. I gydnabod hyn, cyflawnwyd nifer o flaenoriaethau academaidd gan gynnwys cynllunio strategaeth addysg newydd er mwyn creu disgyblion annibynnol, a nifer o apwyntiadau newydd i'n tîm o staff dysgu, staff lles a staff cynorthwyyol. Yn ogystal, llwyddom i wella diogelwch yr ysgol trwy fusddoddi mewn system i reoli drysau allanol yr ysgol yn ganolog, ac er nad ydynt yn boblogaidd, i osod twmpathau rheoli cyflymder yn y maes parcio er mwyn diogelu pawb sy'n cyrraedd a gadael yr ysgol ar droed.

I orffen, pleser mawr yw llongyfarch disgyblion blynyddoedd 10-13, eu teuluoedd a'r staff ar ganlyniadau arholiadau gwych eleni. Derbyniodd ein disgyblion y canlyniadau gorau mae'r ysgol wedi eu gweld hyd yma, ac mae hyn, wrth gwrs, yn destun balchder a dathlu.

Gobeithio fod yr adroddiad yn dangos ein bod yn ymrwymo'n llwyr i sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn derbyn y ddarpariaeth orau posib o ran cyfleoedd ac addysg i gwrrdd â'u hanghenion unigol beth bynnag fo'u cefndir, eu gallu a'u diddordebau. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio gyda'n cymuned er mwyn cynorthwyo pob un o'n disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'

This is a clear sign of the pioneering attitude of staff and their commitment to improve the school for the benefit of our pupils.

My hope is that everyone is aware by now that we place the same priority on the academic progress, the health, welfare and safety of all our stakeholders. In recognition of this, a number of academic priorities were achieved, including planning a new pedagogy strategy to develop independent pupils, and new appointments to our teaching staff, welfare staff and to our support staff. Also, we succeeded in improving the safety of the school by investing in a central system for managing the outer doors of the schools and, although they are not popular, establishing speed bumps in the parking area to manage the safety of all who leave and visit the school on foot.

To conclude, it is with great pleasure that I congratulate year 10-13 pupils, their families and staff in achieving excellent results this year. These were the best results that the school has seen to date and of course is something to take pride in and to celebrate.

I hope that this report shows our total commitment to ensuring that every pupil who attends Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg receives the best possible provision in terms of opportunities and education to satisfy their individual needs, whatever their background, their ability and their interests. We look forward to continue working with our community to support every pupil to reach 'the reach the top of their mountain'.

CYNNYDD AR ARGYMHELLION ESTYN ADRODDIAD AROLYGU 2019

A1: Gwella safonau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22 llwyddodd disgyblion yr ysgol i gyflawni y graddau arholiad gorau mae'r ysgol wedi eu gweld yng CA4 a CA5.

PRIF YSTADEGAU CA4

Sgôr Pwyntiau Cyfartalog	Cap 9	Llythrennedd	Rhifedd	Gwyddoniaeth	Sgiliau
Canlyniadau 2022	419	50	46	47	47
Canlyniadau 2021	429	49	45	48	40
Canlyniadau 2020	428	49	45	46	45
Canlyniadau 2019	417	47	46	46	43
Canlyniadau 2018	405	46	44	44	42

Allwedd i'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog

58+ = Gradd A* Grade 52+ = Gradd A Grade
46+ = Gradd B Grade 40+ = Gradd C Grade

Gorolwg Canlyniadau Blwyddyn 13 (Pob un yn % oni nodir yn wahanol)	2022	2021	2020	2019
A*-E	99	96	100	100
Trothwy Lefel 3 cymesur	99	98	98	100
3 A*-C neu'n fwy cymesur	83	75	75	68

A*/A	44.06	55.36	39.26	21.4
A* - C	89.45	95.5	92.64	81.3
A* - B	68.87	80.97	71.78	46.9

Nifer yn llwyddo yn y BAC	85	50	50	41
Canran yn llwyddo yn BAC	100	100	100	100
Canran o'r flwyddyn yn llwyddo yn BAC	96.59	90.91	90.91	100

A2: Sicrhau bod disgyblion yr adran uwchradd yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

Mae cryn fuddsoddiad wedi bod er mwyn sicrhau fod is-adeiledd, ystafelloedd ac offer technoleg gwybodaeth yr ysgol yn ein galluogi i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol mewn gwersi er mwyn datblygu medrau y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cynllun strategol wedi ei wireddu sy'n golygu fod gan pob disgybl ym mlwyddyn 7 ddyfais (gliniadur) yn ei fag ar gyfer pob gwersi.

Mae targed 2b yng Nghynllun Gwella'r Ysgol yn anelu at:

'Sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm sydd yn gyfoethog o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, a sydd yn galluogi ein disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'

Mae'r gweithredoedd er mwyn cyflawni'r darged yn gofyn bod:

'Pob pwnc i gyfrannu at 'fap darpariaeth Technoleg Digidol' ac i sicrhau eu bod yn datblygu o leiaf un sgil o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FFCD)

- Amser i'w glustnodi mewn cyfarfod staff neu ddiwrnod HMS i sicrhau fod AP yn deall y FfCD. Sgiliau FFCD i'w mapio ar draws y cwricwlwm a'r map wedi ei ddiweddarau'

a

'Pob adran i greu tasgau digidol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da o'u gliniaduron'.

A3: Gwella prosesau monitro a hunanwerthuso yr ysgol gan sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

Yn ystod 2021-22 roedd calendr Monitro a Hunanwerthuso ysgol gyfan ar waith. Mae holl staff yr ysgol yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus gyda'r syniad mai pwrpas pob gweithgaredd yw 'canfod, rhannu a chysoni arfer dda' er mwyn gwella pob agwedd o waith yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd y gweithgareddau canlynol:

- Llais y disgybl – ble roedd aelodau o'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ac Arweinwyr Canol (Penaethiaid Blwyddyn) yn sgwrsio gyda disgyblion ynglŷn â gwahanol elfennau o'r gwaith oedd i weld yn eu llyfrau
- Craffu ar lyfrau – Gweithgaredd ble roedd Arweinwyr Pwnc (AP) a'u Rheolwr cyswllt o'r UDA yn craffu gwahanol agweddau o waith disgyblion ac athrawon yn llyfrau'r disgyblion. Roedd sgwrs broffesiynol yn galluogi Rheolwr Cyswllt i herio, a'r AP i fyfyrion ar ba arfer dda dylid ei rhannu ac agweddau i'w gwella o fewn yr adran.
- Taith ddysgu – Cafodd 36 aelod o staff gyfle i ymweld â gwersi mewn adrannau gwahanol Meithrin i Flwyddyn 13 i weld arferion/ strategaethau adalw gwahanol a newydd yn dilyn DPP ysgol gyfan.
- Rheoli Perfformiad – Mae prosesau Rheoli Perfformiad yr ysgol wedi rhoi cyfle i bob aelod o staff werthuso eu gwaith er lles eu datblygiad personol fydd yn y pen draw o fudd i'w disgyblion. Mae cynlluniau yn eu lle i wella y broses ymhellach drwy ddefnyddio dulliau cymell yn ystod y flwyddyn nesaf.

A4: Mynd i'r afael a'r ddyled ariannol

Nid oes dyled ariannol wedi bodoli yn yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

PROGRESS MADE ON ESTYN INSPECTION REPORT RECOMMENDATIONS 2019

A1: Improve standards, particularly in Key Stage 4

During the academic year, pupils of the school succeeded to achieve the highest exam grades the school has seen in KS4 and KS5.

HEADLINE STATISTICS KS4

Average Point Scores	Capped 9	Literacy	Numeracy	Science	Skills
2022 Results	419	50	46	47	47
2021 Results	429	49	45	48	40
2020 Results	428	49	45	46	45
2019 Results	417	47	46	46	43
2018 Results	405	46	44	44	42

Key to Average Point Scores

58+ = Grade A* Grade 52+ = Grade A Grade
46+ = Grade B Grade 40+ = Grade C Grade

Overview of Year 13 results (all % unless noted)	2022	2021	2020	2019
A*-E	99	96	100	100
Level 3 Threshold	99	98	98	100
3 or more A*-C grades	83	75	75	68

A*/A	44.06	55.36	39.26	21.4
A* - C	89.45	95.5	92.64	81.3
A* - B	68.87	80.97	71.78	46.9

Number succeeding in the WBQ	85	50	50	41
% of entries succeeding in the WBQ	100	100	100	100
5 of Year Group succeeding in WBQ	96.59	90.91	90.91	100

A2: Ensure that pupils in the secondary department develop their information and communication technology skills across the curriculum

We have invested heavily to ensure that the school's infrastructure, rooms and information technology equipment enable us to use Information Technology effectively in lessons in order to develop pupils' abilities across the curriculum.

A strategic plan has been realised which means that all year 7 pupils have a device (laptop) in their bags for every lesson.

Target 2b in the School's Improvement Plan aims to:

'Ensure that we provide a curriculum rich in knowledge, skills and experiences which enables pupils to reach 'the summit of their mountain'.

These actions in order to achieve the target requires that:

'Every subject contributes to 'a map of Information Technology provision' developing at least one of the skills in the Digital Competence Framework (DCF)

- Time to be allotted in staff meetings or INSET days to ensure that the Subject Leader understands the DCF. DCF skills to be mapped across the curriculum have been updated

and for

'Every department to design digital tasks for year 7 pupils in order to ensure that they make good use of their laptops.

A3: Improve the school's monitoring and self-evaluation processes, and ensure that leaders evaluate provision in line with its effect on pupils' standards and achievement

During 2021-22 the whole school Monitoring and Self evaluation calendar was implemented. All members of staff are familiar and comfortable with the idea that the purpose of all activities was to 'identify, share good practice and ensure consistency' in order to improve every aspect of the work in school.

During the year, the following activities occurred:

- Pupil Voice— whereby members of the Senior Leadership Team (SLT) and Middle Leaders (Heads of Year hold conversations with pupils about different elements of the work seen in their books
- Scrutinize books— An activity where Subject Leaders and their SLT Contact Manager scrutinize different aspects of the work of pupils in and teachers in pupils' books. A professional conversation enables the Contact Manager to challenge the Subject Leader to reflect and consider which good practice ought to be shared and which aspects to improve within the department.
- Learning journey— 36 members of staff were afforded the opportunity to visit lessons in different departments from Meithrin to Year 13 in order to observe practices/ different and new recall strategies following whole school CPD.
- Managing Performance— The school's Performance Management processes have given every member of staff the opportunity to evaluate their work for the benefit of their personal development which will eventually benefit their pupils. Schemes are in place to improve the process further by using encouragement methods during next year.

A4: Address the financial deficit

The school has not had a financial deficit for the last two .

CYNLLUN GWELLA YSGOL 2021- 2024

Nod y CGY: Cymell, Diolgelu a Dysgu
(Creu Diwylliant Cymell sy'n arwain at Ddiwylliant Diogelu a Diwylliant Dysgu)

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 1: Iechyd a Lles			
1a) Creu cymuned Gymreig ble mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn ddiogel o fewn awyrgylch sydd wedi seilio ar safonau uchel sy'n datblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus sydd yn falch o'u cymuned	<ul style="list-style-type: none"> Dim Saesneg i'w glywed ar dir yr ysgol (heblaw mewn gwersi Saesneg) Safon gwisg ysgol pob disgybl yn berffaith 	<ul style="list-style-type: none"> Rhwng 3-5 o werthoedd craidd yn bodoli yn yr ysgol a'r disgyblion a'r staff yn eu hymgorffori 	<ul style="list-style-type: none"> Safon Cymreictod rhagorol ar dir yr ysgol Pob disgybl a phob aelod o staff yn mwynhau bywyd ysgol
1b) Galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchiol a phositif, gyda'r disgyblion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus a pharchus	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd cyson o'r siarter ymddygiad er mwyn sicrhau fod disgyblaeth cadarn a theg 	<ul style="list-style-type: none"> Y Cyngor Ysgol i ystyried anghenion lles disgyblion yr ysgol ym mhob cyfarfod a sut y gellir datblygu cymorth Sefydlu grŵp llais staff i roi adborth ar sut gall yr ysgol gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Holl randdeiliaid yr ysgol yn barchus, cwrtais, hapus ac yn garedig Ymddygiad yn rhagorol
1c) Datblygu amgylchedd ble mae arloesedd yn rhan o waith naturiol yr ysgol, er mwyn datblygu sgiliau mentrus a chreadigol ein disgyblion	<ul style="list-style-type: none"> Holl staff yr ysgol yn ymroi i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> Ethos 'cymell' cryf yn amlwg ym mhob agwedd o waith yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygiadau cyffrous yn creu cyfleoedd newydd i staff ac i ddisgyblion yn gyson

SCHOOL IMPROVEMENT PLAN 2021- 2024

Aim of SIP: Motivate, Protect and Learn
(Creating a Motivating Culture that leads to a Safeguarding Culture and a Learning Culture)

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 1: Health and Wellbeing			
1a) Create a Welsh community where everyone feels that they belong and are safe within an atmosphere that is based on high standards that develop informed principled citizens who are proud of their community	<ul style="list-style-type: none"> No English to be heard on school grounds (except in English lessons) The standard of every pupil's school uniform is perfect 	<ul style="list-style-type: none"> Between 3-5 core values exist in the school and the pupils and staff incorporate them 	<ul style="list-style-type: none"> Excellent standard of Welshness on the school grounds Every pupil and every member of staff enjoying school life
1b) Enable everyone to work together in a productive and positive atmosphere, with the pupils developing into healthy, confident and respectful individuals	<ul style="list-style-type: none"> Constant use of the behaviour charter to ensure that there is firm and fair discipline 	<ul style="list-style-type: none"> The School Council to consider the welfare needs of the school's pupils at every meeting and how support can be developed Establish a staff voice group to give feedback on how the school can support a balance between work and life 	<ul style="list-style-type: none"> All the school's stakeholders are respectful, polite, happy and kind Behaviour is excellent
1c) Developing an environment where innovation is part of the school's natural work, in order to develop the enterprising and creative skills of our pupils	<ul style="list-style-type: none"> All the school's staff devote themselves to developing themselves professionally 	<ul style="list-style-type: none"> A strong 'motivation' ethos evident in all aspects of the school's work 	<ul style="list-style-type: none"> Exciting developments constantly creating new opportunities for staff and pupils

CYNLLUN GWELLA YSGOL 2021- 2024

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 2: Dysgu ac Addysgu			
2a) Creu darpariaeth sy'n sicrhau rhagoriaeth academaidd a diwylliannol ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog	<ul style="list-style-type: none"> Pob gwrs yn galluogi pob disgybl i lwyddo hyd gorau eu gallu Disgyblion ac athrawon yn mwynhau gwersi 	<ul style="list-style-type: none"> Disgyblion yn gweithio'n galetach mewn gwersi na'u hathrawon mewn diwylliant o gymell 	<ul style="list-style-type: none"> Pob gwrs wedi'i chynllunio yn dilyn 'confensiynau addysgu rhagorol' yr ysgol Pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol tu hwnt i'r dosbarth
2b) Sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm sydd yn gyfoethog o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, a sydd yn galluogi ein disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth ac amodau yn addas ar gyfer pob disgybl ac yn diwallu gofynion Deddf ADY Sgiliau oedd yn arfer cael eu datblygu trwy'r Bac yn cael eu darparu trwy bynciau eraill 	<ul style="list-style-type: none"> Disgyblion a staff yn deall dibenion CiG ac yn barod i weithio gyda'r cwricwlwm newydd Pob disgybl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi eu haddysg a'u bywydau 	<ul style="list-style-type: none"> Medrau technoleg digidol a chyfathrebu pob disgybl yn gwella Sgiliau traws-gwricwlaidd yn ffocws ym mhob gwrs Pob disgybl yn cael profiadau sy'n newydd ac yn gyffrous Darpariaeth cwricwlaidd ac allgyrsiol yn diwallu anghenion pob disgybl

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 3: Safonau Uchel			
3a) Creu diwylliant ble mae rhagoriaeth a disgwyliadau uchel yn galluogi staff a disgyblion i fod yn ymroddgar, brwdfrydig, ysbrydoledig ac uchelgeisiol	<ul style="list-style-type: none"> Presenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol a'r Consortiwm Cyfradd diarddel yn isel ac yn is na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol 	<ul style="list-style-type: none"> 'Teithiau cefnogi' rheolaidd i gefnogi awyrgylch positif mewn gwersi drwy ganolbwyntio ar uwcholeuo a rhannu arfer da a rhoi clod i'r rhai sy'n cyflawni gwaith rhagorol ac yn ymddwyn yn rhagorol 	<ul style="list-style-type: none"> Barn rhanddeiliaid allanol e.e. rhieni ac ESTYN yn gadarnhaol
3b) Sicrhau fod perfformiad disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith yn adlewyrchu diwylliant ble mae rhagoriaeth a disgwyliadau uchel yn hanfodol	<ul style="list-style-type: none"> Data i'w gasglu a'i ddadansoddi yn ganolog unwaith pob tymor 	<ul style="list-style-type: none"> Pob adran i ddefnyddio systemau tracio ysgol gyfan (e.e. SMID) i dracio eu data yn rheolaidd ac mewn ffordd sy'n gyson ar draws yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> SPC ysgol gyfan a phob adran i gymharu'n ffafriol â chanlyniadau 2021

SCHOOL IMPROVEMENT PLAN 2021- 2024

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 2: Teaching and Learning			
2a) Create provision that ensures academic and cultural excellence for all pupils whatever their background and ability, in order to develop them as ambitious and capable learners	<ul style="list-style-type: none"> Every lesson enables every pupil to succeed to the best of their ability Pupils and teachers enjoying lessons 	<ul style="list-style-type: none"> Pupils working harder in lessons than their teachers in a culture of motivation 	<ul style="list-style-type: none"> All lessons planned following the school's 'excellent teaching conventions' All pupils have the opportunity to participate in cultural activities beyond the classroom
2b) Ensure that we provide a curriculum that is rich in knowledge, skills and experiences, and that enables our pupils to reach 'the top of their mountain'	<ul style="list-style-type: none"> Provision and conditions are suitable for all pupils and meet the requirements of the ALN Act Skills that used to be developed through the Bac are provided through other subjects 	<ul style="list-style-type: none"> Pupils and staff understand the purposes of CiG and are ready to work with the new curriculum All pupils have opportunities to take part in extracurricular activities that enrich their education and their lives 	<ul style="list-style-type: none"> All pupils' digital technology and communication skills improve Cross-curricular skills are the focus of each lesson All pupils have experiences that are new and exciting Curricular and extracurricular provision meeting the needs of all pupils

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 3: High Standards			
3a) Create a culture where excellence and high expectations enable staff and pupils to be dedicated, enthusiastic, inspiring and ambitious	<ul style="list-style-type: none"> Pupil attendance higher than the average of the Local Authority and the Consortium Expulsion rate is low and below the Local Authority average 	<ul style="list-style-type: none"> Regular 'support tours' to support a positive atmosphere in lessons by focusing on highlighting and sharing good practice and giving credit to those who do excellent work and behave excellently 	<ul style="list-style-type: none"> Opinions of external stakeholders e.g. parents and ESTYN are positive
3b) Ensure that pupils' performance in all aspects of their work reflects a culture where excellence and high expectations are essential	<ul style="list-style-type: none"> Data to be collected and analysed centrally once each term 	<ul style="list-style-type: none"> All departments to use whole school tracking systems (e.g. SMID) to track their data regularly and in a way that is consistent across the school 	<ul style="list-style-type: none"> SPC of the whole school and each department to compare favourably with the results of 2021

Corff Llywodraethu 2021-2022 Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Cadeirydd

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ
robertevansswp@hotmail.com

Is-gadeirydd

Mr Geraint Evans

Clerc

Miss Charlotte Déchamps, Swyddog Llywodraethu,
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
cde@ygbm.co.uk

Mae 21 o aelodau ar y Corff Llywodraethu

Pennaeth (Llywodraethwr ex-officio)
6 Rhiant Lywodraethwr
2 Gynrychiolydd Athrawon
1 Gynrychiolydd Staff Cynnal
6 Cynrychiolydd yr AALI
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig

Pennaeth

Mr Rhys Angell Jones

Rhieni Llywodraethwyr [cyfnod yn dod i ben]

Mr John Paul Barker [06/10/24]
Mrs Sally-ann Efstathiou [06/10/24]
Mr Richard Smith [11/10/25]
Mr Rhodri Jones [06/10/24]
Mr Rhodri Lewis [06/10/24]
Mrs Cathy Williams [06/10/24]

Cynrychiolwyr Athrawon [cyfnod yn dod i ben]

Miss Sioned Jones [08/09/25]
Miss Becca Pugh [01/09/22]

Cynrychiolwyr y Staff Cymorth [cyfnod yn dod i ben]

Miss Lauren Duddridge [22/10/25]

Llywodraethwyr yr AALI [cyfnod yn dod i ben]

Mr Robert Evans [18/10/24]
Mr Geraint Evans [18/10/24]
Mr Dilyn Griffith [18/10/24]
Mrs Maxine Griffiths [15/01/23]
Mr Huw Llewellyn-Morgan [18/10/24]
Cllr Mr Steffan Wiliam [18/10/24]

Llywodraethwyr Cyfetholedig [cyfnod yn dod i ben]

Mr Carl Brown [10/06/25]
Mr Huw Davies [01/09/22]
Mrs Anne-Louise Llewellyn-Morgan [10/07/24]
Dr Paul Orders [01/09/24]
Mr Warren Scott [01/09/24]

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Governing Body 2021-2022

Chairman

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ
robertevansswp@hotmail.com

Deputy

Mr Geraint Evans

Clerc

Miss Charlotte Déchamps, Governance Officer,
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
cde@ygbm.co.uk

There are 21 members on the Governing Body

Headteacher (ex-officio Governor)
6 Parent Governors
2 Teacher Representatives
1 Support Staff Representative
6 LA Representatives
5 Community Representatives

Head Teacher

Mr Rhys Angell Jones

Parent Governor [term ends]

Mr John Paul Barker [06/10/24]
Mrs Sally-ann Efstathiou [06/10/24]
Mr Richard Smith [11/10/25]
Mr Rhodri Jones [06/10/24]
Mr Rhodri Lewis [06/10/24]
Mrs Cathy Williams [06/10/24]

Teacher Representative [term ends]

Miss Sioned Jones [08/09/25]
Miss Becca Pugh [01/09/22]

Support Staff Representative [term ends]

Miss Lauren Duddridge [22/10/25]

LA Governors [term ends]

Mr Robert Evans [18/10/24]
Mr Geraint Evans [18/10/24]
Mr Dilyn Griffith [18/10/24]
Mrs Maxine Griffiths [15/01/23]
Mr Huw Llewellyn-Morgan [18/10/24]
Cllr Mr Steffan Wiliam [18/10/24]

Community Governors [term ends]

Mr Carl Brown [10/06/25]
Mr Huw Davies [01/09/22]
Mrs Anne-Louise Llewellyn-Morgan [10/07/24]
Dr Paul Orders [01/09/24]
Mr Warren Scott [01/09/24]

DYDDIADAU TYMOR YSGOL 2022/2023

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Diwrnodau Ysgol
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2022	Dydd Llun 5 Medi 2022	Dydd Llun 31 Hydref 2022	Dydd Gwener 4 Tachwedd 2022	Dydd Gwener 23 Rhagfyr 2022	75
Gwanwyn 2023	Dydd Llun 9 Ionawr 2023	Dydd Llun 20 Chewfror 2023	Dydd Gwener 24 Chewfror 2023	Dydd Gwener 31 Mawrth 2023	55
Haf 2023	Dydd Llun 17 Ebrill 2023	Dydd Llun 29 Mai 2023	Dydd Gwener 2 Mehefin 2023	*Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023	65
				Cyfanswm	195

Dyddiadau Pwysig

Bydd **Dydd Llun 5 Medi 2022 a Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan yr AALI Bydd y tridiau HMS sy'n weddill i'w cymryd yn ôl disgrisiwn pob ysgol yn unigol.

*Bwrwiedir y caiff y dyddiau HMS hyn eu cymryd naill ai ar ddydd Llun 24 Gorffennaf neu ar adegau eraill i'w penderfynu gan ysgolion unigol, yn dilyn ymgynghori'n briodol gyda staff, er enghraifft, yn ystod y gwyliau presennol neu ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.

Bydd yr holl ysgolion yn cau ar **Dydd Llun 1 Mai 2023** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:

Y Nadolig Dydd Sul 25 Rhagfyr 2022
Y Pasg Dydd Gwener y Groglith 7 Ebrill 2023
Dydd Llun y Pasg 10 Ebrill 2023
Gwyliau Banc mis Mai Dydd Llun 1 Mai 2023
Dydd Llun 29 Mai 2023

SCHOOL HOLIDAY DATES 2022/2023

Term	Begin	Half Term		End	No. of School Days
		Begin	End		
Autumn 2022	Monday 5 September 2022	Monday 31 October 2022	Friday 4 November 2022	Friday 23 December 2022	75
Spring 2023	Monday 9 January 2023	Monday 20 February 2023	Friday 21 February 2023	Friday 31 March 2023	55
Summer 2023	Monday 17 April 2023	Monday 29 May 2023	Friday 2 June 2023	* Monday 24 July 2023	65
				Total	195

Significant Dates

Monday 5 September 2022 and *Monday 24 July 2023 will be designated INSET days for all LEA Maintained Schools.

The remaining three INSET days to be taken, will be at the discretion of each individual school. *It is intended that this INSET day will either be taken on Monday 24 July 2023 or at an alternative time to be decided by individual schools following appropriate consultation with staff for example in the form of twilight sessions.

All schools will be closed on **Monday 1 May 2023** for the May Day Bank Holiday.

Significant dates:

Christmas Sunday 25 December 2022
Easter Good Friday 7 April 2023
Easter Monday 10 April 2023
May Bank Holidays Monday 1 May 2023
Monday 29 May 2023



ANNE-LOUISE LLEWELLYN-MORGAN

ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR LLES A CHYMORTH

Poppy Tucker Year 12 - U19 6th in Wales
Neve Jones Year 10 - U16 9th in Wales
Imogen Davies Year 8 - U14 14th in Wales

Cardiff and Vale Representatives

Macsen Stockton Year 12
Rhys McNabb Year 11
Caleb Stockton Year 9
Daniel Thomas Year 7
Osian Rowe Year 7
Moli Lyons Year 13
Poppy Tucker Year 12
Gwenno Goode Year 12

Neve Jones Year 10
Imogen Davies Year 8

Wales Representatives

Neve Jones Year 10
Moli Lyons Year 13

Tennis**Teams**

Year 7+8 Girls - Cardiff and Vale Champions
Year 7+8 Boys - Cardiff and Vale Champions
Year 9+10 Boys - Cardiff and Vale Champions
Year 7+8 Girls - South Wales Champions
Year 9+10 Boys - South Wales Champions

Individuals

Neirin Gillani Year 10 - U18 Welsh Champions

Pupils representing Wales

Athletics - Moli Lyons Year 13
Cricket - Ffredi Easterby Year 8
Gymnastics – Morus Bowen Year 13 & Magi Hall Year 7
Rhythmic Gymnastics – Imogen Payne Year 10
U16 Hockey
Mia Hall Year 10, Soffia Easterby Year 10
U18 Hockey – Lena Davies Year 12
Sailing – Efa Thomas Year 9
U17 Girls Football - Manon Pearce Year 12
Basketball - Ifan Sion Year 11
Rugby – Georgia Morgan Year 13
Skiing – Aled Phillips Year 9 (Welsh Squad), Heather Heslop Year 11 (Welsh and British Squad)
Ice Skating - Tal Sherry, Harriett Wells, Lilly Chandler (British Development Squad)
Tennis - Neirin Gillani - U18 Welsh Champion
Cross Country
Moli Lyons Year 13 - U20
Neve Jones Year 10 - U16

ADRODDIAD CYNNAL DYSGU A LLES 2021-22

Mae cyflwyniad y system ADY Newydd ym mis Medi 2021 a trosglwyddiad disgyblion o'r hen system AAA i'r system Newydd ADY o fis Ionawr 2022 wedi bod yn gyfnod prysur iawn. Mae'r adran wedi bod yn gweithio'n ddiwyd yn creu proffiliau un dudalen, cynnal cyfarfodydd disgybl ganolig a chreu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn y blynyddoedd gorfodol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022, sef blynyddoedd 7 a 10.

Fel y disgwyl yn dilyn effaith y cyfnodau clo, gwelwyd fwy o angen nag erioed am gymorth lythrennedd a rhifedd. Bu'r adran yn gweithio'n galed i gefnogi'r disgyblion yma er mwyn gwella eu hoedranau darllen yn ogystal â'u sgiliau mathemateg er mwyn sicrhau bod ganddynt y sylfaen gorau phosib ar gyfer y dyfodol.

Blwyddyn 7	% disgyblion yn dangos cynnydd
Darllen Cymraeg	78
Darllen Saesneg	73

Braf yw nodi mai cyfartaledd TGAU y 30 disgybl ADY ym Mlwyddyn 11 yn 2022 oedd 40.4 sef gradd C.

Wrth i ni ffarwelio â Glesni Sion, Cadi Haf, Rhys Binney, Joe Roberts, Olivia Townsend a Steffan James ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn dechrau yn y Brifysgol - penodwyd 10 cynorthwy-ydd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Rydw i'n sicr y bydd y criw newydd yr un mor allweddol wrth gefnogi disgyblion i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyheadau ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

Newyddion cyffrous i'r adran a'r ysgol oedd dechrau ar y gwaith o sefydlu uned ASD newydd yr ysgol sef yr Hafan. Bydd gwaith y ganolfan hon o dan arweiniad Catrin Davies yn amhrisiadwy yn ein gwaith o gefnogi ein disgyblion.

Mae effeithiau'r cyfnod clo yn parhau i fod yn her i lawer o'n disgyblion ac mae gwaith y Ganolfan Les yn amhrisiadwy er mwyn cefnogi'r disgyblion bregus yma. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd 303 o ddisgyblion cefnogaeth lles gan y Ganolfan drwy ymarraethau grŵp neu chymorth unigol. Yn ogystal â hyn mae rhwng 60 a 70 o ddisgyblion yn mynychu'r ganolfan yn wythnosol drwy bigo mewn yn ystod cofrestru, amser egwyl neu cinio.

Mae'r Ganolfan Les hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau'r gofal gorau ar gyfer ein disgyblion. Derbyniodd 78 o ddisgyblion cwnsela gan Barnados llynedd a chafodd 13 o ddisgyblion gefnogaeth gan Wasanaeth Lles Ieuencid y Fro.

Erbyn hyn, mae'r ail ran o'r gwaith ar gyfer ardd y Ganolfan Les wedi cael ei gwblhau drwy greu Cuddfan Cwtch, sy'n ardal boblogaidd iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol gan y disgyblion. Mae saer lleol hefyd wedi bod yn helpu yn yr ardd drwy greu llwybr synhwyraidd ac adeiladu pergola. Yn dilyn y gwaith yma, yr ardd oedd y lle delfrydol i gynnal parti ffarwel ar gyfer y disgyblion hynny ym mlynnyddoedd 11 a 13 a oedd yn gadael ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddodd hyn gyfle i staff allweddol o'r ysgol ac o asiantaethau allanol i ddatlu llwyddiannau'r disgyblion hynny. Rydyn ni mor falch o lwyddiannau'r holl ddisgyblion sydd wedi derbyn cymorth gan yr adran Cynnal a Lles a dymunwn pob lwc iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.

LEARNING SUPPORT & WELLBEING REPORT 2021-22

The introduction of the New ALN system in September 2021 and the transition of pupils from the old SEN system to the New ALN system from January 2022 has been a very busy period for the department. The department has been working diligently creating one-page profiles, holding pupil-centred meetings and creating Individual Development Plans (IDPs) for those pupils who are in the compulsory years for the academic year 2021-2022, which are years 7 and 10.

As expected, following the impact of the lockdown periods, there was a greater than ever need for literacy and numeracy support. The department worked hard to support these pupils in order to improve their reading ages as well as their mathematical skills to ensure that they have the best possible foundation for the future.

Year 7	% Of Pupils Showing Progress
Reading Welsh	78
Reading English	73

We are pleased to note that the average GCSEs for the 30 ALN pupils in Year 11 in 2022 was 40.4 which is grade C.

As we said farewell to Glesni Sion, Cadi Haf, Rhys Binney, Joe Roberts, Olivia Townsend a Steffan James at the end of the academic year - 10 assistants were appointed for the next academic year. I am certain that the new crew will be equally instrumental in supporting pupils to ensure that they realise their aspirations and achieve their individual needs.

Exciting news for the department and the school was the start of work on establishing the school's new ASD unit, the Hafan. The work of this centre under the leadership of Catrin Davies will be invaluable in our work to support our pupils.

The effects of the lockdown period continue to be a challenge for many of our pupils and the work of the Wellbeing Centre is invaluable in order to support these vulnerable pupils. During the year, 303 pupils received welfare support from the Centre through group interventions or individual support. In addition to this, between 60 and 70 pupils attend the centre weekly by dropping in during registration, break time or lunch.

The Wellbeing Centre also works closely with external agencies to ensure the best care for our pupils. 78 pupils received counselling from Barbados last year and 13 pupils received support from the Vale's Youth Wellbeing Service.

By now, the second part of the work for the Wellbeing Centre garden has been completed by creating a Cwtch Hideout, which is a very popular area and is used daily by the pupils. A local carpenter has also been helping in the garden by creating a sensory path and building a pergola. Following this work, the garden was the ideal place to hold a farewell party for those pupils in years 11 and 13 who were leaving at the end of the year. This gave key staff from the school and from external agencies the opportunity to celebrate the successes of those pupils. We are so proud of the academic successes of all the pupils who have received help from the Support and Wellbeing department and we wish them the best of luck for the future.

GWEITHDREFN CWYNION YSGOL

Ym mhob un o bolisiau fe anelwn at gyflawni nodau ac amcanion fframwaith saith nod Craidd Hawliau Gweithredu Pobl Ifanc Cymru

Dyro Dy Law I Mi Ac Fe Awn I Ben Y Mynydd

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliadaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiadaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

1. Cyflwyniad

- 1.1** Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi gwneud ymrwymiad i ddelio gyda chwynion mewn ffordd effeithiol. Ein nod yw cynnig eglurhad am unrhyw faterion nad ydych yn siŵr amdanynt. Os oes modd, byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau a wnaethpwyd gennym a byddwn yn ymddiheuro. Ein nod yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw er mwyn gwella'r hyn a wnawn.
- 1.2** Ein diffiniad o gwyn yw 'mynegi anfonlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol neu aelod o'i staff, sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol.'
- 1.3** Mae'r weithdrefn gwyno hon yn cefnogi ein hymrwymiad ac mae'n ffordd o sicrhau bod modd i unrhyw un y mae ganddynt ddiddordeb yn yr ysgol, fynegi pryder, ac y bydd modd iddynt wneud hynny gan deimlo'n hyderus y bydd yn cael ei glywed, ac os bydd sail gadarn iddo, rhoddir sylw iddo mewn ffordd briodol ac amserol.
- 1.4** Mae'r weithdrefn gwyno enghreifftiol hon wedi cael ei chymryd o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 11/2012, o'r enw "Gweithdrefnau Cwyno ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru". Dylid darllen y weithdrefn gwyno hon law yn llaw gyda'r cylchlythyr hwn, a bydd yr egwyddorion ynddo yn cynnig canllaw ar ei chyfer.

2. Pryd y dylid defnyddio'r weithdrefn hon

- 2.1** Pan fydd gennych chi bryder neu pan fyddwch yn gwneud cwyn, byddwn yn ymateb trwy gyfrwng y ffordd a ddisgrifir gennym isod fel arfer. Weithiau, efallai y byddwch yn pryderu ynghylch materion na fyddant yn cael eu penderfynu gan yr ysgol, ac os felly, byddwn yn dweud wrthyhych pwy y dylech gyfeirio eich cwyn atynt. Ar adegau eraill, efallai y byddwch yn pryderu ynghylch materion a fydd yn destun gweithdrefnau eraill, ac os felly, byddwn yn rhoi esboniad i chi ynghylch sut y bydd eich pryder yn cael ei drin.
- 2.2** Os bydd eich pryder neu'ch cwyn yn ymwneud â chorff arall yn ogystal â'r ysgol (er enghraifft, yr awdurdod lleol), byddwn yn gweithio gyda nhw er mwyn penderfynu sut y dylid rhoi sylw i'ch cwyn.

3. A ydych wedi gofyn i ni eto?

- 3.1** Os ydych yn cysylltu â ni am y tro cyntaf, dylech roi cyfle i ni ymateb. Os na fyddwch yn fodlon gyda'n hymateb, bydd modd i chi gwyno gan ddefnyddio'r weithdrefn a ddisgrifir gennym isod. Bydd modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym, trwy siarad gyda'r unigolyn perthnasol yn yr ysgol, heb yr angen i ddilysu gweithdrefn ffurfiol.

4. Yr hyn y byddwn yn ei ddisgwyl gennych chi

- 4.1** Credwn bod gan bob cynwyr yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu. Ond mae gan staff a llywodraethwyr yr ysgol yr un hawl. Rydym yn disgwyl i chi fod yn gwrtais ac yn foesgar. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol, sarhaus neu afresymol. Yn ogystal, ni fyddwn yn goddef galwadau afresymol neu gwyno blinderus neu ddyfalbarhad afresym.

5. Ein dull gweithredu ni er mwyn ateb eich pryder neu'ch cwyn

- 5.1** Byddwn yn ystyried eich holl bryderon a'ch cwynion mewn ffordd agored a theg.
- 5.2** Bydd yr ysgol yn parchu hawliau a theimladau pawb dan sylw bob amser, gan wneud pob ymdrech i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol.
- 5.3** Efallai y bydd modd ymestyn yr amserleni er mwyn delio gyda'ch pryderon neu'ch cwynion ar ôl cael trafodaeth gyda chi.
- 5.4** Efallai y byddwn yn gofyn i'r awdurdod lleol am gyngor pan fo hynny'n briodol.
- 5.5** Efallai y bydd rhai mathau o bryderon neu gwynion yn arwain at faterion y bydd yn rhaid delio gyda nhw mewn ffordd arall (ac eithrio'r polisi cwynion hwn), ac os felly, byddwn yn esbonio'r rheswm dros hyn, gan ddweud wrthyhych pa gamau fydd yn cael eu cymryd.
- 5.6** Bydd y corff llywodraethu yn cadw cofnodion o'r dogfennau a ddefnyddir er mwyn ymchwilio i'ch pryder neu'ch cwyn am saith mlynedd ar ôl delio gydag ef/hi. Cedwir cofnodion yn yr ysgol a byddant yn cael eu hadolygu gan y corff llywodraethu ar ôl saith mlynedd er mwyn penderfynu a fydd angen eu cadw am gyfnod hwy.
- 5.7** Cofnodir cwynion dienw a wneir, ond bydd unrhyw benderfyniad i ymchwilio iddynt yn destun disgrisiwr yr ysgol, gan ddibynnu ar natur y gwyn.
- 5.8** Pan ystyrir mai'r unig reswm dros wneud cwyn oedd er mwyn peri niwed neu sarhad i unigolion neu i'r ysgol, bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o'r ymchwiliadau a wneir a'r camau a fydd yn cael eu cymryd, gan gynnwys y rhesymau dros beidio cymryd unrhyw gamau.

6. Ateb eich pryder neu'ch cwyn

- 6.1** Mae'r siart yn Atodiad A yn dangos yr hyn a allai ddigwydd pan fyddwch yn gwneud cwyn neu'n mynegi pryder. Ceir hyd at dri Cham: A, B a C. Bydd modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn ystod Camau A neu B. Bydd modd i chi ddod â pherthynas neu gydymaith gyda chi i'ch cynorthwyo ar unrhyw adeg yn ystod y broses, ond disgwylir i chi siarad ar ran eich hun. Fodd bynnag, pan fo'r cynwyr yn ddisgybl, rydym yn cydnabod ei bod yn rhesymol bod y cydymaith yn siarad ar eu rhan a/neu'n cynghori'r disgybl.
- 6.2** Cyn belled ag y bo modd, rhoddir sylw i'ch pryder neu'ch cwyn mewn ffordd gyfrinachol. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron yn codi pan fydd angen i'r unigolyn sy'n delio gyda'ch pryder neu'ch cwyn ystyried a oes angen i unrhyw un arall yn yr ysgol gael gwybod am eich pryder neu'ch cwyn, er mwyn gallu rhoi sylw priodol iddo/iddi.
- 6.3** Os ydych yn ddisgybl dan 16 oed ac os ydych yn dymuno mynegi pryder neu wneud cwyn, byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn i ni gynnwys eich rhiant(rhieni) neu'ch gofalwr(gofalwyr). Os ydych yn ddisgybl dan 16 oed ac os ydych yn gysylltiedig â chwyn mewn unrhyw ffordd arall, efallai y byddwn yn gofyn i'ch rhiant(rhieni) neu'ch gofalwr(gofalwyr) i fod yn gysylltiedig ac i fynychu unrhyw drafodaeth neu gyfweiliad gyda chi.

Cam A

- 6.4** Os oes gennych chi bryder, bydd modd i chi ei datrys yn gyflym yn aml trwy siarad ag athro neu Bennaeth Blwyddyn eich plentyn. Dylech fynegi'ch pryder cyn gynted ag y gallwch; fel arfer, byddem yn disgwyl i chi fynegi'ch mater cyn pen 10 diwrnod ysgol o unrhyw ddigwyddiad. Po fwyaf o amser y byddwch yn aros, yr anoddaf y bydd hi efallai i'r sawl dan sylw i ddelio â'r mater mewn ffordd effeithiol.
- 6.5** Os ydych yn ddisgybl, bydd modd i chi fynegi'ch pryderon i gynrychiolydd eich cyngor ysgol, tiwtor dosbarth neu Pennaeth Cyfnod Allweddol (BP, GIJ, LD, BM neu OR). Ni fydd hyn yn eich atal rhag mynegi cwyn yn ddiweddarach os byddwch yn teimlo nad oes sylw cywir wedi cael ei roi i'r mater(ion) yr ydych wedi'i godi/wedi'u codi.

- 6.6** Byddwn yn ceisio'ch hysbysu o'r hyn yr ydym wedi ei wneud neu'r hyn yr ydym yn ei wneud am eich pryder cyn pen 10 diwrnod ysgol fel arfer, ond os na fydd modd i ni wneud hyn, byddwn yn siarad gyda chi, gan gytuno ar amserlen ddiwygiedig gyda chi.
- 6.7** Bydd yr unigolyn sy'n goruchwyllo eich pryder neu'ch cwyn yn rhoi gwybodaeth i chi am y cynnydd sy'n cael ei sicrhau. Yn ogystal, bydd yr unigolyn hwn yn cadw cofnod o'r pryder er mwyn gallu cyfeirio ato yn y dyfodol.

Cam B

- 6.8** Ym mwyafrif yr achosion, byddem yn disgwyl i'ch pryder gael ei ddatrys mewn ffordd anffurfiol. Os byddwch o'r farn na ddeliwyd gyda'ch pryder cychwynnol mewn ffordd briodol, dylech gyflwyno'ch cwyn i'r Pennaeth mewn ffurf ysgrifenedig.
- 6.9** Byddem yn disgwyl i chi geisio gwneud **hyn cyn pen pum diwrnod ysgol o gael ymateb i'ch pryder gan ei bod er budd pawb bod cwyn yn cael ei datrys cyn gynted ag y bo modd**. Yn ogystal, mae ffurflen ynghlwm (**Atodiad B**) a allai fod o ddefnydd i chi. Os ydych yn ddisgybl, byddwn yn esbonio'r ffurflen i chi, byddwn yn eich helpu i'w llenwi ac yn rhoi copi ohoni i chi.
- 6.10** Os yw'ch cwyn yn ymwneud â'r Pennaeth, dylech gyflwyno'ch cwyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr mewn ffurf ysgrifenedig, ei chyfeirio at yr ysgol, er mwyn gofyn iddi gael ei hymchwilio.
- 6.11** Ym mhob achos, bydd modd i Miss Charlotte Déchamps fel clerig y Llywodraethwyr eich helpu i gyfleu'ch cwyn mewn ffurf ysgrifenedig yn ôl yr angen.
- 6.12** Os oes gennych chi gyswllt gyda chwyn mewn unrhyw ffordd, bydd y Pennaeth yn esbonio'r hyn a fydd yn digwydd a'r math o help sydd ar gael i chi.
- 6.13** Bydd y Pennaeth yn eich gwahodd i drafod eich cwyn yn ystod cyfarfod. Cytunir ar amserlenni er mwyn delio gyda'ch cwyn gyda chi. Fel arfer, byddwn yn ceisio trefnu cyfarfod gyda chi ac yn esbonio'r hyn a fydd yn digwydd, cyn pen 10 diwrnod ysgol o gael eich llythyr. Bydd unigolyn dynodedig yr ysgol yn cwblhau'r ymchwiliad ac yn eich hysbysu o'r canlyniadau mewn ffurf ysgrifenedig cyn pen 10 diwrnod ysgol o'i gwblhau.

Cam C

- 6.14** Mae'n anarferol i gwyn symud ymlaen i gam pellach. Fodd bynnag, os byddwch o'r farn o hyd na roddwyd sylw teg i'ch cwyn, dylech ysgrifennu, trwy gyfeiriad yr ysgol, at Gadeirydd y Llywodraethwyr, gan nodi'ch rhesymau dros ofyn i bwyllgor cwynion y corff llywodraethu ystyried eich cwyn. Ni fydd yn rhaid i chi nodi holl fanylion eich cwyn eto.
- 6.15** Os oes yn well gennych, yn hytrach nag anfon llythyr neu neges e-bost, bydd modd i chi siarad gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr neu Miss Charlotte Déchamps, a fydd yn nodi'r hyn a drafodwyd a'r hyn a fyddai'n datrys y broblem, yn eich geiriau chi. Fel arfer, byddem yn disgwyl i chi wneud hyn cyn pen pum diwrnod ysgol o gael ymateb yr ysgol. Gofynnir i chi ddarllen y nodiadau neu darllenir y nodiadau i chi ac yna, gofynnir i chi eu llofnodi fel cofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd. Byddwn yn eich hysbysu o'r ffordd y bydd eich cwyn yn cael ei thrin a byddwn yn anfon llythyr atoch er mwyn cadarnhau hyn. Fel arfer, bydd y pwyllgor cwynion yn cael cyfarfod gyda chi cyn pen 15 diwrnod ysgol o gael eich llythyr.
- 6.16** Yn ogystal, bydd y llythyr yn nodi erbyn pryd y bydd angen cael yr holl dystiolaeth a'r ddogfennaeth a fydd yn cael ei hystyried gan y pwyllgor cwynion. Bydd pawb sy'n gysylltiedig yn cael gweld y dystiolaeth a'r ddogfennaeth cyn y cyfarfod, gan sicrhau bod hawliau pobl i sicrhau preifatrwydd o ran gwybodaeth yn cael eu diogelu. Yn ogystal, bydd y llythyr yn cofnodi'r hyn y gwnaethom ei gytuno gyda chi ynghylch pryd a ble y cynhelir y cyfarfod, a'r hyn a fydd yn digwydd. Efallai y bydd angen newid yr amserlen er mwyn galluogi pobl i fod ar gael, er mwyn casglu dystiolaeth neu er mwyn ceisio cyngor. Os felly, bydd yr unigolyn sy'n delio gyda'r gwyn yn cytuno ar ddyddiad newydd ar gyfer y cyfarfod gyda chi.
- 6.17** Fel arfer, er mwyn delio gyda'r gwyn mor gyflym ag y bo modd, ni fydd y pwyllgor cwynion yn ad-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith. Os byddwch yn gofyn i'r cyfarfod gael ei ad-drefnu fwy nag unwaith, efallai y bydd y pwyllgor o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud penderfyniad ynghylch y gwyn yn eich absenoldeb, er mwyn osgoi unrhyw oedi dianghenraid.
- 6.18** Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn pen 10 diwrnod ysgol o'r cyfarfod, gan esbonio canlyniad ystyriaeth pwyllgor cwynion y corff llywodraethu.

- 6.19** Byddwn yn cadw cofnodion o'r holl sgysgiau a'r trafodaethau er mwyn i'r corff llywodraethu llawn allu cyfeirio atynt yn y dyfodol a'u hadolygu. Cedwir y cofnodion hyn am o leiaf saith mlynedd.
- 6.20** Pwyllgor cwynion y corff llywodraethu fydd â'r gair olaf ynghylch cwynion.

7. Amgylchiadau arbennig

- 7.1** Pan wneir cwyn am unrhyw rai o'r canlynol, gweithredir y weithdrefn gwynion mewn ffordd wahanol.

i. Llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr

Cyfeirir y pryder neu'r gwyn at Gadeirydd y Llywodraethwyr er mwyn iddo/iddi ymchwilio iddo. Neu, gall y Cadeirydd ddirprwyo'r mater i lywodraethwr arall er mwyn iddynt ymchwilio iddo. Bydd y camau o Gam B y weithdrefn gwynion ac ymlaen yn berthnasol.

ii. Cadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr

Hysbysir Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr a bydd yn ymchwilio i'r mater neu fe all ddirprwyo'r mater i lywodraethwr arall. Bydd y camau o Gam B y weithdrefn gwynion ac ymlaen yn berthnasol.

iii. Cadeirydd y Llywodraethwyr ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr

Cyfeirir y gwyn at glerc y corff llywodraethu, a fydd yn hysbysu Cadeirydd y pwyllgor cwynion. Yna, bydd Cam C y weithdrefn gwynion yn berthnasol.

iv. Y corff llywodraethu llawn

Cyfeirir y gwyn at glerc y corff llywodraethu, a fydd yn hysbysu'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr, yr awdurdod lleol a, phan fo hynny'n briodol, yr awdurdod esgobaethol. Fel arfer, bydd yr awdurdodau yn cytuno ar y trefniadau er mwyn cynnal ymchwiliad annibynnol o'r gwyn gyda'r corff llywodraethu.

v. Y Pennaeth

Cyfeirir y pryder neu'r gwyn at Gadeirydd y Llywodraethwyr, a fydd yn cynnal yr ymchwiliad neu a fydd yn penderfynu dirprwyo'r mater i lywodraethwr arall. Bydd y camau o Gam B y weithdrefn gwynion ac ymlaen yn berthnasol.

- 7.2** Ym mhob achos, bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd ddiduedd, agored a theg.

8. Ein hymrwymiad ni i chi

- 8.1** Byddwn yn ystyried eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif a phan fyddwn wedi gwneud camgymeriadau, byddwn yn ceisio dysgu wrthynt.
- 8.2** Os bydd angen help arnoch er mwyn cyfleu eich pryderon, byddwn yn ceisio'ch cynorthwyo. Os ydych yn berson ifanc ac os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu MEIC, sef llinell gymorth genedlaethol er mwyn cynnig cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae modd cael cyngor a chymorth gan Gomisiynydd Plant Cymru.
- 8.3** Mae'r corff llywodraethu wedi ymgynghori gyda staff a disgyblion ynghylch y polisi hwn, a bydd yn cynnal gweithgarwch ymgynghori pellach os gwneir unrhyw ddiwygiadau iddo yn dyfodol.

Mae modd cysylltu â MEIC trwy ffonio'r rhif rhadffôn: **0808 802 3456**, neu anfon neges destun at: 84001. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael 24 y dydd.

Mae modd cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru trwy ffonio'r rhif rhadffôn: **0808 801 1000** (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9a.m. tan 5p.m.), anfon neges destun at: 80 800 (gan nodi COM ar ddechrau'r neges) neu anfon neges e-bost at: advice@childcomwales.org.uk.

SCHOOL COMPLAINTS PROCEDURE

In all of the school's policies we strive to achieve the aims and objectives of the Wales Young People's Active Rights seven core aims framework.

Put Your Hand In Mine And We Will Go To The Mountain Top

By co-operating and trusting each other we want to ensure that every pupil fulfils his or her potential with regard to their ability and talents. We do this by offering opportunities, support and guidance within a positive, broadminded, safe and civilised society.

Our Vision for our pupils

We want to develop pupils who are fluent in Welsh and English who are proud of the tradition and heritage of their locality and country. We seek balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and are comfortable with themselves. They will respect their minds, their spirit and their bodies and they will have broad horizons and curiosity for new information. They possess the necessary skills to benefit from challenges in the future in the world of work and in society and they will want to continue to grow and develop as lifelong learners and citizens of the world.

1. Introduction

- 1.1** Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg is committed to dealing effectively with complaints. We aim to clarify any issues about which you are not sure. If possible we will put right any mistakes we have made and we will apologise. We aim to learn from mistakes and use that experience to improve what we do.
- 1.2** Our definition of a complaint is 'an expression of dissatisfaction in relation to the school or a member of its staff that requires a response from the school.'
- 1.3** This complaints procedure supports our commitment and is a way of ensuring that anyone with an interest in the school can raise a concern, with confidence that it will be heard and, if well-founded, addressed in an appropriate and timely fashion.
- 1.4** This model complaints procedure has been taken from the Welsh Government Circular 11/2012 entitled "Complaints procedures for school governing bodies in Wales". This complaints procedure should be read in conjunction with this circular and will be guided by the principles contained within it.

2. When to use this procedure

- 2.1** When you have a concern or make a complaint we will usually respond in the way we explain below. Sometimes you might be concerned about matters that are not decided by the school, in which case we will tell you who to complain to. At other times you may be concerned about matters that are handled by other procedures, in which case we will explain to you how your concern will be dealt with.
- 2.2** If your concern or complaint is about another body as well as the school (for example the local authority) we will work with them to decide how to handle your concern.

3. Have you asked us yet?

- 3.1** If you are approaching us for the first time you should give us a chance to respond. If you are not happy with our response then you may make your complaint using the procedure we describe below. Most concerns can be settled quickly just by speaking to the relevant person in school, without the need to use a formal procedure.

4. What we expect from you

- 4.1** We believe that all complainants have a right to be heard, understood and respected. But school staff and governors have the same right. We expect you to be polite and courteous. We will not tolerate aggressive, abusive or unreasonable behaviour. We will also not tolerate unreasonable demands or unreasonable persistence or vexatious complaining.

5. Our approach to answering your concern or complaint

- 5.1** We will consider all your concerns and complaints in an open and fair way.
- 5.2** At all times the school will respect the rights and feelings of those involved and make every effort to protect confidential information.
- 5.3** Time scales for dealing with your concerns or complaints may need to be extended following discussion with you.
- 5.4** We may ask for advice from the local authority or diocesan authority where appropriate.
- 5.5** Some types of concern or complaint may raise issues that have to be dealt with in another way (other than this complaints policy), in which case we will explain why this is so, and will tell you what steps will be taken.
- 5.6** The governing body will keep the records of documents used to investigate your concern or complaint for seven years after it has been dealt with. Records will be kept in school and reviewed by the governing body after seven years to decide if they need to be kept for longer.
- 5.7** Complaints that are made anonymously will be recorded but investigation will be at the discretion of the school depending on the nature of the complaint.
- 5.8** Where complaints are considered to have been made only to cause harm or offence to individuals or the school, the governing body will ensure that records are kept of the investigations that are made and what actions are taken, including the reasons for 'no action'.

6. Answering your concern or complaint

- 6.1** The chart in Appendix A shows what may happen when you make a complaint or raise a concern. There are up to three Stages: A, B and C. Most complaints can be resolved at Stages A or B. You can bring a relative or companion to support you at any time during the process but you will be expected to speak for yourself. However, we recognise that when the complainant is a pupil it is reasonable for the companion to speak on their behalf and/or to advise the pupil.
- 6.2** As far as possible, your concern or complaint will be dealt with on a confidential basis. However, there could be occasions when the person dealing with your concern or complaint will need to consider whether anyone else within the school needs to know about your concern or complaint, so as to address it appropriately.
- 6.3** If you are a pupil under 16 and wish to raise a concern or bring a complaint we will ask for your permission before we involve your parent(s) or carer(s). If you are a pupil under 16 and are involved in a complaint in any other way, we may ask your parent(s) or carer(s) to become involved and attend any discussion or interview with you.

Stage A

- 6.4** If you have a concern, you can often resolve it quickly by talking to a teacher or Head of Year. You should raise your concern as soon as you can; normally we would expect you to raise your issue within 10 school days of any incident. The longer you leave it the harder it might be for those involved to deal with it effectively.
- 6.5** If you are a pupil, you can raise your concerns with your school council representative, form tutor or Heads of Key Stage (BP, GJ, LD, BM or OR). This will not stop you, at a later date, from raising a complaint if you feel that the issue(s) you have raised have not been dealt with properly.

- 6.6** We will try to let you know what we have done or are doing about your concern normally within 10 school days, but if this is not possible, we will talk to you and agree a revised timescale with you.
- 6.7** The person overseeing your concern or complaint will keep you informed of the progress being made. This person will also keep a log of the concern for future reference.

Stage B

- 6.8** In most cases, we would expect that your concern is resolved informally. If you feel that your initial concern has not been dealt with appropriately you should put your complaint in writing to the Headteacher.
- 6.9** We would expect you to aim to do this **within five school days of receiving a response to your concern as it is in everyone's interest to resolve a complaint as soon as possible**. There is also a form attached (**Appendix B**) that you may find useful. If you are a pupil we will explain the form to you, help you complete it and give you a copy.
- 6.10** If your complaint is about the Headteacher, you should put your complaint in writing to the Chair of governors, addressed to the school, to ask for your complaint to be investigated.
- 6.11** In all cases, Miss Charlotte Déchamps, Clerk to the Governors can help you to put your complaint in writing if necessary.
- 6.12** If you are involved in any way with a complaint, the Head Teacher will explain what will happen and the sort of help that is available to you.
- 6.13** The Head Teacher will invite you to discuss your complaint at a meeting. Timescales for dealing with your complaint will be agreed with you. We will aim to have a meeting with you and to explain what will happen, normally within 10 school days of receiving your letter. The school's designated person will complete the investigation and will let you know the outcome in writing within 10 school days of completion.

Stage C

- 6.14** It is rare that a complaint will progress any further. However, if you still feel that your complaint has not been dealt with fairly, you should write, through the school's address, to the Chair of governors setting out your reasons for asking the governing body's complaints committee to consider your complaint. You do not have to write down details of your whole complaint again.
- 6.15** If you prefer, instead of sending a letter or email, you can talk to the Chair of governors or Miss Charlotte Déchamps who will write down what is discussed and what, in your own words, would resolve the problem. We would normally expect you to do this within five school days of receiving the school's response. You will be asked to read the notes or will have the notes read back to you and then be asked to sign them as a true record of what was said. We will let you know how the complaint will be dealt with and will send a letter to confirm this. The complaints committee will normally have a meeting with you within 15 school days of receiving your letter.
- 6.16** The letter will also tell you when all the evidence and documentation to be considered by the complaints committee must be received. Everyone involved will see the evidence and documentation before the meeting, while ensuring that people's rights to privacy of information are protected. The letter will also record what we have agreed with you about when and where the meeting will take place and what will happen. The timescale may need to be changed, to allow for the availability of people, the gathering of evidence or seeking advice. In this case, the person dealing with the complaint will agree a new meeting date with you.
- 6.17** Normally, in order to deal with the complaint as quickly as possible, the complaints committee will not reschedule the meeting more than once. If you ask to reschedule the meeting more than once, the committee may think it reasonable to make a decision on the complaint in your absence to avoid unnecessary delays.
- 6.18** We will write to you within 10 school days of the meeting explaining the outcome of the governing body's complaints committee's consideration.

- 6.19** We will keep records of all conversations and discussions for the purpose of future reference and review by the full governing body. These records will be kept for a minimum of seven years.
- 6.20** The governing body's complaints committee is the final arbiter of complaints.

7. Special circumstances

- 7.1** Where a complaint is made about any of the following the complaints procedure will be applied differently.
- i. A governor or group of governors**
The concern or complaint will be referred to the Chair of governors for investigation. The Chair may alternatively delegate the matter to another governor for investigation. The steps from Stage B onwards of the complaints procedure onwards will apply.
 - ii. Chair of Governors or the Headteacher and the Chair of Governors**
The Vice Chair of governors will be informed and will investigate it or may delegate it to another governor. Stage B onwards of the complaints procedure will apply.
 - iii. Both the Chair of governors and Deputy Chair of governors**
The complaint will be referred to the clerk to the governing body who will inform the Chair of the complaints committee. Stage C of the complaints procedure will then apply.
 - iv. The whole governing body**
The complaint will be referred to the clerk to the governing body who will inform the Headteacher, Chair of governors, local authority and, where appropriate, the diocesan authority. The authorities will usually agree arrangements with the governing body for independent investigation of the complaint.
 - v. The Headteacher**
The concern or complaint will be referred to the Chair of governors who will undertake the investigation or may delegate it to another governor. Stage B onwards of the complaints procedure will apply.
- 7.2** In all cases, the school and the governing body will ensure that complaints are treated in an unbiased, open and fair way.
- ### 8. Our commitment to you
- 8.1** We will take your concerns and complaints seriously and, where we have made mistakes, will try to learn from them.
- 8.2** If you need help to make your concerns known we will try and assist you. If you are a young person and need extra assistance the Welsh Government has established MEIC which is a national advocacy and advice helpline for children and young people. Advice and support can also be accessed from the Children's Commissioner for Wales.
- 8.3** The governing body has consulted with staff and pupils on this policy and will consult further if any amendments are made in the future.

MEIC may be contacted by freephone: **0808 802 3456**, or text: 84001. This service is operated 24 hours a day.

The Children's Commissioner for Wales can be contacted by freephone: **0808 801 1000** (Monday to Friday 9a.m. to 5p.m.), text: 80 800 (start your message with COM) or e-mail: **advice@childcomwales.org.uk**

NODYN AR YSGOLION IACH

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer "Blas am Oes". Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod weini a'i werthu yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth gwasanaeth The Big Fresh Catering Company i sicrhau bod yr holl fwyd a diod sy'n cael ei weini yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r Mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle.

CYFLEUSTERAU TOILED

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy Gyngor yr Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn.

A NOTE ON HEALTHY SCHOOLS

We are committed to the Healthy Eating and Drinking in Schools Measure which embeds the "Appetite for Life" guidance. This came into force in September 2013. It sets out the strategic direction and actions required to improve the nutritional standards of food and drink served and sold in our school. We have acted upon this with the support of The Big Fresh Catering Company to ensure that all food and drink served in our school are compliant with the Measure. Healthy eating is promoted through Food Technology, Biology and P.S.E. lessons. Consistent messages are provided by staff with respect to food and drink both in school and off-site.

TOILET FACILITIES

Toilet Facilities are inspected on a regular basis and is part of the Authority's cleaning contract. Pupils, through the School Council, contribute towards the work of monitoring these facilities



DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD



Colcot Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF62 8YU

 01446 450 280

 ygbm.cymru

 [@ygbromorgannwg](https://twitter.com/ygbromorgannwg)